OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1401 (Cy. 168)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Maerdy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mehefin 2011* |
| *Yn dod i rym* | *13 Mehefin 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain - Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gosod cyfyngiadau ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mehefin 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Maerdy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 13 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A5 ym Maerdy ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 100 metr i'r dwyrain o Bont Maerdy hyd at bwynt canol ei chyffordd a'r ffordd a elwir Carreg y Big sy'n arwain i Ddol-y-Pennau.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio, fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**7.** Cyfnod parhad eithaf y Gorchymyn hwn fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 3 Mehefin 2011

***GARETH MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.